AUR YN YR AFON.

Gen i deimlad oer
Gole gwanllyd y lloer
Sy'n gyfrifol am hyn
Neu y gwynt dros y llyn
Mae e'n symud y dail
Yn eu gwyrddni di-ffael
Er hynny mae'n wir
Fe dawelith cyn hir.

Mae pobol yn dod
Fu nhw'n dod erioed
I edrych am dir
A ffynhonne pur
Ma nhw'n dod fel y dail
A'r borfa ddi-ffael
Ond un peth sy'n wir
Fydda'i o 'ma cyn hir.

Chwilio am yr aur yn yr afon
Camu dros y cerrig o hyd
Chwilio am yr ochor ore
Dyna'r ffordd ore i deithio y byd.

Mewn breuddwyd dwy'n byw
Heb neb wrth y lliw
Fel cwch ar y llyn
A'r storom mewn grym
Mae'n chwythu y dail
Dros y dŵr yn ddi-ffael
Fel deilen 'rwyf' i
Am hedfan Fri.

© Geraint Griffiths 2000